

Gwybodaeth i Gleifion

(DSAEK) Descemet Stripping Automated Endothelial Keratoplasty

Uned y Llygaid



Beth yw DSAEK?

"**Trawsblaniad o rai o haenau'r gornbilen**" yw DSAEK (Descemet Stripping Automated Endothelial Keratoplasty). Defnyddir hyn i drin clefydau sy'n effeithio ar haen fewnol y gornbilen – **yr endotheliwm** – yr haen sy'n gyfrifol am gadw'r gornbilen yn glir.

Yn y broses DSAEK, dim ond yr haen fewnol, sef yr haen sydd wedi'i difrodi, sy'n cael ei chyfnwid am haen denau o feinwe iach gan roddwr, yn hytrach na'r gornbilen gyfan.

Pam mae angen gwneud DSAEK?

Argymhellir **DSAEK** pan fydd y celloedd endothelaidd yn methu gweithio'n iawn, gan wneud i'r gornbilen chwyddo a'r golwg fynd yn niwlog.

Mae cyflyrau cyffredin sy'n cael eu trin drwy DSAEK yn cynnwys:

1. Dystroffi Endothelaidd Fuch's (FED)
2. Ceratopathi Pothellog (Bullous Keratopathy)
3. Methiant endothelaidd ar ôl llawdriniaeth (e.e. cataract)
4. Camweithrediad endothelaidd cynhenid neu gaffaeledig

Sut mae'r driniaeth yn cael ei gwneud?

- Fel arfer, bydd y llawdriniaeth yn digwydd o dan anesthetig lleol
- Bydd y llawfeddyg yn tynnu'r haen endothelaidd sydd wedi'i difrodi drwy wneud toriad bach

- Mae grafftiad tenau a gafwyd gan roddwr yn cael ei fewnosod a'i roi yn ei le gan ddefnyddio offer arbennig.
- Defnyddir swigen aer i ddal y grafftiad yn ei le yn erbyn eich cornbilen.
- Fel arfer, mae'r toriad bach yn cau ar ei ben ei hun; nid fydd angen pwythau ar y gornbilen.
- Mae'r broses gyfan fel arfer yn cymryd rhwng 30 a 60 munud.

Manteision DSAEK:

- ✓ Toriad llai a gwella'n gynt o gymharu â thrawsblaniad yr haenau i gyd
- ✓ Risg is o wrthodiad
- ✓ Y golwg yn gwella'n gynt
- ✓ Strwythur llygad cryfach a mwy sefydlog

Risgiau a chymhlethdodau posibl:

Fel pob llawdriniaeth, mae gan DSAEK rai risgiau:

1. Y grafftiad yn symud o'i le (efallai bydd angen ei ail-leoli neu i gael swigen aer newydd)
2. Pwysau uwch yn y llygad
3. Haint
4. Y grafftiad yn methu
5. Y golwg braidd yn aneglur neu'n afluniedig
6. Risg prin y bydd y grafftiad yn cael ei wrthod

Cyfarwyddiadau ar gyfer Gofal Ôl-lawdriniaethol:

I hybu gwellhad ac atal cymhlethdodau:

- Gorweddwch ar wastad eich cefn fel y'ch cyngorwyd chi ei wneud, am yr oriau cyntaf i helpu'r grafftiad i lynu.
- Defnyddiwch ddiferion llygaid yn union fel y'i rhagnodwyd (gwrthfotigau a steroidau fydd y rhain fel arfer).
- Ceisiwch beidio â rhwbio eich llygad.
- Gwisgwch orchudd amddiffynnol tra'n cysgu am 1-2 wythnos.
- Ceisiwch osgoi nofio, amgylcheddau lle mae llwch a chodi gwrthrychau trwm.
- Ceisiwch osgoi hedfan yn ystod y 10 diwrnod cyntaf tra bod y swigen aer yn dal i fod yn y llygad.
- Dewch i'ch apwyntiadau dilynol.

Amserlen Adfer:

Amser	Beth i'w Ddisgwyl
Diwrnodau 1-3	Y golwg yn aneglur, swigen yn y llygad, gorffwys gartref
1-2 wythnos	Gwelliant graddol yn y golwg; gallwch ailddechrau gwneud gweithgaredd ysgafn
1-3 mis	Y golwg yn parhau i sefydlogi
3-6 mis	Bydd golwg y rhan fwyaf o gleifion ar ei orau erbyn yr hyn

Cysylltwch â ni os bydd:

- Dirywiad sydyn yn y golwg, cochni, poen neu sensitifrwydd i olau.
- Arwyddion o haint (crawni neu chwyddo).
- Yn gweld smotiau arnofiol neu golau'n fflachio

Cwestiynau Cyffredin:

C: A fydd fy ngolwg yn berffaith ar ôl DSAEK?

A: Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn gweld gwelliant sylweddol ond efallai y bydd angen sbectol o hyd er mwyn gweld yn dda.

C: A fyddaf yn teimlo'r grafftiad y tu mewn i'r llygad?

A: Na fyddwch, mae'r grafftiad yn denau iawn ac ni ellir ei deimlo.

C: Beth os fydd y grafftiad yn datgysylltu?

A: Yn aml gellir ei ail-gysylltu gyda drwy chwistrellu aer mewn gweithred syml yn y theatr llygaid.

Cysylltwch â ni:

Rhif ffôn EEC: 01633 – 238856 yn ystod dyddiau/oriau gwaith

Penwythnos/Tu allan i Oriau Gwaith: Tîm Offthalmoleg ar Ddyletswydd, drwy rif y switsfwrdd: **01633- 234234**

E-bost (dim ond os oes angen cyngor):

EmergencyEyeClinic.abb@wales.nhs.uk

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English"**

